**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**DYDD LLUN, 12 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 12 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL: Cynghorydd David Mackie (Cadeirydd)**
Cynghorwyr Janet Axworthy, Marion Bateman, Sean Bibby, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Veronica Gay, Dennis Hutchinson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Dave Mackie, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Cynghorydd David Cox (ar ran Geoff Collett) ac Andy Dunbobbin (ar ran Ron Hampson)

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog y Pwyllgor

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor fod o’r Grŵp Cynghrair Annibynnol. Gan y penodwyd y Cynghorydd Dave Mackie i’r rôl hon gan y Grŵp, gofynnwyd i’r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi’r Cynghorydd Dave Mackie fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Paul Shotton y Cynghorydd Sean Bibby fel Is-gadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd David Wisinger.

Enwebodd y Cynghorydd Veronica Gay y Cynghorydd Tudor Jones ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Dave Mackie.

Ar ôl cynnal pleidlais penodwyd y Cynghorydd Sean Bibby fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi’r Cynghorydd Sean Bibby fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Tudor Jones gysylltiad personol gan ei fod yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Hamdden Treffynnon.

Datganodd y Cynghorydd Mared Eastwood gysylltiad personol gan ei bod yn gweithio yn Caffi Isa, Mynydd Isa ac roedd yn aelod o weithgor ar gyfer trosglwyddo ased cymunedol arfaethedig yn New Brighton.

Datganodd y Cynghorydd Veronica Gay gysylltiad personol gan ei bod yn gweithio fel gwirfoddolwr yng Nghanolfan Gymunedol Sandy Lane.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017.

Materion yn Codi

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton am gyflawniadau cadarnhaol Cambrian Aquatics yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.10am)

..................................................

**Cadeirydd**